



# GWEITHDREFN Cronfa Ariannol Wrth Gefn (FCF)

Darperir y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru, rheolir yr FCF gan y Coleg, gyda'r nod o gael gwared ar rwystrau i ddysgu ar gyfer dysgwyr mewn caledi ariannol. Bydd mynediad at gymorth ariannol drwy'r gronfa hon yn dibynnu ar incwm yn y cartref ac amgylchiadau unigol. Gall dysgwyr sy'n gymwys ar gyfer y Lwfans Cynhaliath Addysg (LCA) i bobl ifainc 16 i 18 oed, neu Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLIC) ar gyfer y rheini sy'n 19 oed neu'n hŷn, neu unrhyw ddysgwr sy'n profi caledi ariannol wneud cais am gymorth ariannol oddi wrth yr FCF.

Mae'r FCF yn agored i ddysgwyr ôl-16 oed ac mae'n gronfa gyfyngedig.

Gall yr FCF gefnogi myfyrwyr gyda chost tocynnau bws. Rhaid i fyfyrwyr sy'n gymwys i gael cymorth oddi wrth eu Hawdurdod Lleol wneud cais am y cyllid hwn hefyd. Rhaid i ddysgwyr 16-21 oed hefyd wneud cais am Fy Ngherdyn Teithio

Gall yr FCF gefnogi myfyrwyr gyda chost gofal plant. Mae yna uchafswm dyraniad fesul diwrnod tuag at gostau ffioedd gofal plant, ar gyfer un plentyn yn unig. Rhaid i ddysgwyr ddefnyddio Gwarchodwr Plant neu Feithrinfa sy'n gofrestredig.

Gellir defnyddio'r FCF tuag at gostau sy'n gysylltiedig â'r cwrs gan gynnwys offer, gwisg, llyfrau, teithiau a gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) lle bo'n berthnasol ayyb.

Gall yr FCF gefnogi myfyrwyr gyda chost prydau bwyd. Mae yna lwfans prydau bwyd dyddiol ar gael i fyfyrwyr. Fel arfer, rhaid i fyfyrwyr neu rieni/gwarcheidwaid ddangos eu bod yn derbyn un o'r budd-daliadau canlynol:

- cymhorthdal incwm
- lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm
- cymorth o dan Ran VI o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999
- lwfans cyflogaeth a chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm
- credyd treth plant (ond nid credyd treth gwaith) os nad yw eich incwm blynyddol, fel yr aseswyd gan greydau treth, yn fwy na £16,190
- elfen gwarantu credyd pensiwn
- credyd treth gwaith 'dal i redeg' (y taliad y gall rhywun ei dderbyn am bedair wythnos arall ar ôl iddyn nhw beidio â bod yn gymwys ar gyfer credyd treth gwaith bellach)
- credyd cynhwysol (ddim mewn gwaith)
- credyd cynhwysol (mewn gwaith) lle mae eich dyfarniad ar sail enillion blynyddol sydd o dan £7,400 eich cyflogaeth neu hunangyflogaeth

Mae'r Rheolwr (Gwasanaethau Cwsmeriaid) yn gyfrifol dros ddatblygu gweithdrefnau priodol ar gyfer rheoli'r FCF yn gyffredinol. Y Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid sy'n gyfrifol dros weinyddu pob

cais i'r gronfa. Efallai bydd rhaid addasu gweithdrefnau'n flynyddol yn dibynnu ar arweiniad Llywodraeth Cymru, blaenoriaethau o ran cefnogi dysgwyr a'r arian sydd ar gael.

Gall y Rheolwr (Gwasanaethau Cwsmeriaid) wneud penderfyniadau ar gyfer taliadau disgresiwn i ddysgwyr yn seiliedig ar dystiolaeth a ddarparwyd.

### Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg/ Welsh Language Impact Assessment

| Safonau'r Gymraeg   |                      |                            |                    |   |
|---|----------------------|----------------------------|--------------------|---|
| Pa effaith y bydd gweithredu'r cynnig hwn yn ei chael ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a'i datblygiad ehangach?  |                      |                            |                    |   |
| Safonau'r Gymraeg:  | Effaith Cadarnhaol ✓ | Dim Effaith ✓              | Effaith Negyddol ✓ | Tystiolaeth o effaith, ac os yw'n berthnasol, cyfiawnhad os oes modd pennu dulliau cymesur i gyflawni nodau dilys |
| <p>Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid i chi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y mae'r penderfyniad yn eu cael ar— (a) gyfleoedd i bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg, a (b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>When you formulate a new policy, or review or revise an existing policy, you must consider what effects, if any (whether positive or adverse), the policy decision would have on — (a) opportunities for persons to use the Welsh language, and (b) treating the Welsh language no less favourably than the English language.</p> <p>Rhaid i chi lunio a chyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau neu ddarparu cymorth ariannol (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol—</p> |                      | <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> |                    |   |

|   |  |   |  |  |
|---|--|---|--|--|
| <p>(a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un a yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol yn eu cael ar— (i) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; (b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau mwy cadarnhaol, ar— (i) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; (c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar— (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; (ch) a oes angen i chi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol ar— (i) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> |  | ✓ |  |  |
| <p>You must produce and publish a policy on awarding grants or providing financial assistance (or, where appropriate, amend an existing policy) which requires you to take the following matters into account when you make decisions in relation to the awarding of a grant or providing financial assistance —(a) what effects, if any (and whether positive or negative), the awarding of a grant or providing financial assistance would have on— (i) opportunities for persons to use the Welsh language, and (ii) treating the Welsh language no less favourably than the English language; (b) how the decision could be taken or implemented (for example, by imposing conditions ) so that it would have positive effects, or increased positive effects, on— (i) opportunities for persons to use the Welsh language, and (ii) treating the Welsh language no less favourably than the English language; (c) how the decision could be taken or implemented (for example, by</p>  |  | ✓ |  |  |

|   |  |  |  |  |
|---|--|--|--|--|
| <p>imposing conditions) so that it would not have adverse effects, or so that it would have decreased adverse effects on— (i) opportunities for persons to use the Welsh language, and (ii) treating the Welsh language no less favourably than the English language; (ch) whether you need to ask the applicant for any additional information in order to assist you in assessing the effects of awarding a grant or providing financial assistance on— (i) opportunities for persons to use the Welsh language, and (ii) treating the Welsh language no less favourably than the English language.</p> |  |  |  |  |
|---|--|--|--|--|